# GWIR GREFYDD

## Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Llanelwy
## Ebrill 2021

Rwy'n dal i gofio arwyddair fy ysgol gydag anwyldeb - tri gair i ysbrydoli pob un ohonom ni'r disgyblion - "Dysg, Goddefgarwch, Gwasanaeth". Dychmygwch fy syndod pan oeddwn i'n ymweld â gwefan yr ysgol yn ddiweddar a gweld fod rhywun wedi meddwl bod yn bryd ei newid. Erbyn hyn mae'n darllen: "Dysg, Parch, Uchelgais."

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n siomedig. Mae'n debyg y dylwn fod yn ddiolchgar fod dysg yn dal i gael ei gyfrif yn berthnasol i addysg, ond mae 'parch' yn derm mor amwys, yn disodli eangder y gair "goddefgarwch", gair sy'n agos at ryddid, ond yn llai hunan-bendant. Ond, yn fy nhyb i beth bynnag, daw'r broblem wirioneddol gyda'r gair sydd wedi disodli "gwasanaeth". Mae uchelgais yn golygu dod ymlaen yn y byd, tra nid yw Gwasanaeth yn cyfeirio at yr hunan, mae'n cyfeirio at werth mwy hynafol, un sydd wedi'i wreiddio'n llawer dyfnach yn y ffydd Gristnogol. "Rwyf yn eich plith fel un sy'n gweini" meddai'r Arglwydd (Luc 22.27), ac rydym yn cael ein gorchymyn, fel dilynwyr Iesu, i ddisodli hunanoldeb (ac uchelgais) gyda pharodrwydd i gynnal a mawrygu'r rhai o'n cwmpas.

Rwy'n ysgrifennu hyn yn ystod yr wythnos pan fu farw un o'r bobl flaenaf yn nhrefn blaenoriaeth y wlad. Mae'n amlwg bod agweddau tuag at y Teulu Brenhinol yn amrywio'n fawr iawn – o wfftio at eu "bywyd breintiedig", i gymaint o hoffter y gallai rhywun feddwl eu bod yn perthyn yn agos i'r siaradwr. Fodd bynnag, mae o ddiddordeb i mi fod y rhan fwyaf o bobl yn ddiffinio – ac yn talu teyrnged i – Ei Uchelder Brenhinol, Dug Caeredin, am gysegru ei fywyd i wasanaeth cyhoeddus. Mae bod yn aelod o'r Teulu Brenhinol yn fraint enfawr – ac mae yna rywfaint o dystiolaeth fod y Philips ifanc wedi gweithio'n galed iawn i ennill llaw y Dywysoges Elizabeth – ond rwy'n meddwl nad oes amheuaeth, ar ôl i'w briod ddod yn frenhines, bod Tywysog Philips wedi defnyddio'i ddylanwad yn gyson er gwasanaeth y ffydd, er gwasanaeth ei Frenhines, er gwasanaeth y genedl hon ac i nerthu eraill. Yma felly, mae bywyd o wasanaeth, hyd yn oed os oedd ei oddefgarwch yn breuo weithiau, a doedd o ddim heb feiau eraill chwaith.

Mae'n debyg ei fod yn werth nodi hefyd mai arwyddair ei ysgol, ac yn dal i fod, yw "Plus est en vous" (Mae mwy ynoch chi). Mae'n debyg hefyd fod hynny'n wers yr oedd Tywysog Philip wedi'i derbyn yn ei galon, gyda Chynllun Gwobr y Dug Caeredin yn ganlyniad nodedig.

Yn wir, mae yna adnod o'r Ysgrythur sy'n holi ynghylch hanfod gwir grefydd – pa agwedd diffiniol allai gael ei dewis? Ffydd, addoli, defosiwn? "Dyma'r grefydd sy'n bur a dilychwin yng ngolwg Duw ein Tad: Bod dyn yn gofalu am yr amddifad a'r gweddwon yn eu trallod ac yn ei gadw ei hun heb ei ddifwyno gan y byd." (Iago 1.27). Mewn geiriau eraill, mae Crefydd ei hunan yn cael ei ddiffinio yn y Beibl fel gwasanaeth i'r mwyaf gostyngedig a difreintiedig, gwrthgyffur i uchelgais noeth a'r dyhead am enwogrwydd.

Yr hyn rwy'n ei ddweud yw hyn – fod y cysyniad o "Wasanaeth" yn werth sydd, efallai, braidd tan gwmwl y dyddiau hyn, er gwae ni fel cymdeithas os byddwn yn ei golli. I ddechrau, "gwasanaeth" yw'r patrwm bodolaeth y Duw ymgnawdoledig, yr oedd yn ei ymgorffori'n llythrennol fel allwedd i'r greadigaeth. Mae Paul yn ysgrifennu am Iesu fel "Er ei fod ef erioed ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i ddal gafael ynddo, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd dynion" (*Phil 2.6,7)*. Mae Gwasanaeth yn cael ei ddysgu yn yr Ysgrythur fel y ffordd i lawnder bywyd, "oherwydd wrth roi rydym yn derbyn" (*Louis Nizer, ac a briodolwyd yn ddiweddarach i St Francis*). Mae hefyd yn fath o glud, sy'n dal rhannau o gymdeithas gyda'i gilydd, pan nad yw neb yn peidio â bod o werth, ond yn dal yn deilwng o dderbyn gwasanaeth gan y rhai uchaf.

Byddaf i, yn bersonol, yn diolch i Dduw am fywyd y Tywysog Philip oherwydd ei fod wedi defnyddio ei safle hynod freintiedig i wasanaethu ac i hyrwyddo eraill. Byddaf yn gwneud hynny yn y gobaith y bydd gwerth Gwasanaeth fel delfryd, ac fel gwrthrych teilwng o'n dyheadau a'n hymdrechion, yn rhywbeth y bydd yr Eglwys o leiaf yn ei ymgorffori, ac yn rhywbeth sydd i'w annog mewn cymdeithas, waeth ar ba ffurf y mae ein gwasanaeth penodol ni'n hunain yn ymddangos.

+GL